

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Comisiynydd y Gymraeg

Sefydliad (Ile bo'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

e-bost / rhif ffôn: post@cyg-wlc.cymru; lowri.williams@cyg-wlc.cymru

Eich cyfeiriad: Comisiynydd y Gymraeg, Siambrau'r
Farchnad, 5–7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd

Cwestiwn 1: Byddem yn hoffi clywed eich barn am swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol

Gweler ein hymatebion i'r cwestiynau eraill (4,5 a 6).

Cwestiwn 2: Byddem yn hoffi clywed eich barn am strwythur arfaethedig y bwrdd ar gyfer yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol

Gweler ein hymatebion i'r cwestiynau eraill (4,5 a 6).

Cwestiwn 3: Os ydych chi'n credu bod un neu fwy o swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol yn gorgyffwrdd â swyddogaeth sydd eisoes yn cael ei chyflawni gan sefydliad gwahanol yng Nghymru (nad yw'n NWIS), byddem yn hoffi clywed eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn ar y materion hynny.

Gweler ein hymatebion i'r cwestiynau eraill (4,5 a 6).

Cwestiwn 4: Byddem yn hoffi clywed a ydych chi'n credu y dylid cynnwys swyddogaeth arall neu set arall o swyddogaethau o fewn cyfrifoldeb yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol ac i chi nodi eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth ac ymchwil i gefnogi eich barn.

Er 2016 mae gofyn i awdurdodau lleol gydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac er 2019 mae gofyn i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd wneud hynny.¹ Er 2019 mae gofyn i gyrff gofal sylfaenol weithredu yn unol â dyletswyddau gofal sylfaenol.² Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi *Mwy na geiriau sy'n amlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i gryfhau a datblygu gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol*.³ Mae nifer o'r safonau y mae gofyn i'r byrddau iechyd ac awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy yn golygu ei bod yn angenrheidiol rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg wrth ddatblygu systemau digidol er mwyn galluogi

¹ Gweler yr hysbysiadau cydymffurfio perthnasol i bob corff ar wefan Comisiynydd y Gymraeg <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Sefydliadau/Pages/ChwilioSafonau.aspx>

² <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/917/regulation/3/made/welsh?view=plain>

³ <https://llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-iechyd-mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2019-i-2020>

cydymffurfiaeth â'r safonau, yn ogystal ag amcanion *Mwy na geiriau*, mae'r rhain yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r isod:

Safonau gweithredol, e.e. o safbwynt cofnodi sgiliau iaith y gweithlu; Safonau ynghylch cynllun sy'n ymdrin â chynnig cynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg (cyrff iechyd)

Safonau cyflenwi gwasanaethau, e.e. o safbwynt gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff; safonau ynghylch cleifion mewnol (cyrff iechyd)

Fodd bynnag, mae anghysondeb ac anallu systemau a ddefnyddir gan sefydliadau ar hyn o bryd i gofnodi a rhannu dewis iaith rhwng systemau yn peri nifer o broblemau wrth i sefydliadau gydymffurfio â'r safonau a darparu gofal yn y Gymraeg, ac nid yw'r systemau presennol yn annog defnydd rhagweithiol o'r Gymraeg. O'n gwaith hyd yma rydym eisoes yn ymwybodol o enghreifftiau amlwg lle nad yw'r Gymraeg wedi cael ystyriaeth ddigonol mewn darpariaethau digidol yn y sector iechyd a gofal, e.e. System Gweinyddu Cleifion Cymru Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCU WPAS), y cofnod meddygon teulu, System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), Cofnod Electronig Staff (ESR) i enwi rhai yn unig.

Â'r sefyllfa'n amrywio rhwng gwahanol sefydliadau heb sôn am sectorau, cynullodd y Comisiynydd grŵp tasg a gorffen yn 2017-18 i ymchwilio i arferion sefydliadau wrth gofnodi a rhannu dewis iaith, yr anawsterau a'r datrysiadau posibl. Cyhoeddwyd ffrwyth gwaith y grŵp mewn adroddiad yn 2020⁴ lle ceir cyfres o argymhellion ymarferol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd. Un o'r argymhellion i Lywodraeth Cymru oedd y dylid ystyried rôl datblygiadau cenedlaethol (fel system WCCIS) er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n gallu cofnodi a rhannu dewis iaith mewn modd effeithiol. Byddai hyn yn arwain at allu cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol i unigolion sydd wedi nodi wrth ymwneud â gwasanaeth gwahanol eu bod yn dymuno derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg. Yn hynny o beth mae'r Comisiynydd yn ddiweddar wedi cyhoeddi dogfen gyngor arferion da ynghylch cofnodi a rhannu dewis iaith.⁵ Argymhelliad arall a wnaed i'r Llywodraeth oedd ei bod yn rhannu canllawiau â chyrrff cyhoeddus eraill ynghylch caffael meddalwedd amlieithog. Bydd Llywodraeth Cymru fel rhan o waith cyflawni Strategaeth Cymraeg 2050 yn cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo sefydliadau i ddarparu gwasanaethau technolegol drwy'r Gymraeg ar sail ymchwil berthnasol o'r gwyddorau ymddygiadol gan wneud hynny ar y cyd â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth.⁶

Yn y ddogfen ymgynghori ceir cyfeiriad at yr angen i'r Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol ystyried y Gymraeg, sef y bydd ar gais Llywodraeth Cymru, Cyrff Iechyd a Gofal neu Fframwaith Llywodraethant Digidol GIG Cymru yn 'sicrhau bod gwasanaethau Iechyd a Gofal digidol yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion y sector Iechyd a Gofal yn ei gyfanrwydd yng Nghymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig a darpariaeth Gymraeg'. Rydym yn croesawu'r cyfeiriad hwn ac y bydd rhoi fframwaith Cymreig sy'n cynnwys y Gymraeg i wasanaethau digidol iechyd a gofal yn rhan o werthoedd y sefydliad. O ystyried hyn felly a phwysigrwydd cynyddol y

4

<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20190905%20DG%20C%20Grwp%20TaG%20ADRODDIAD%20TE RFYNOL.PDF>

5

<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20200929%203%20Cofnodi%20a%20rhannu%20dewis%20iaith.pdf>

6

Gweler Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr adroddiad blynyddol 2019 i 2020 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/cymraeg-2050-miliwn-o-siaradwyr-adroddiad-blynyddol-2019-i-2020.pdf> (tud. 37)

maes digidol i'r gwasanaethau iechyd a gofal, a'r angen statudol ar i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, yn ogystal â'r gydnabyddiaeth gyffredinol bod diffygion mawr wedi bod yn yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau digidol cenedlaethol credwn y dylid rhoi swyddogaethau penodol i'r Awdurdod Iechyd o safbwynt datblygu a sicrhau digonolrwydd adnoddau digidol yn y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal. Dylai hefyd fod ganddo'r cyfrifoldeb o sicrhau bod ei weithgareddau'n plethu'n agos â'r gwaith sy'n cael ei wneud eisoes gan Lywodraeth Cymru o safbwynt datblygiadau digidol Cymraeg fel rhan o Strategaeth Cymraeg 2050. Rydym yn argymhell y dylai adrodd ar y disgwyliadau hynny fod yn un o'r swyddogaethau y mae'r awdurdod yn atebol i'w fwrdd rheoli amdano.

Yn hyn o beth hoffem eich cyfeirio at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft⁷. Mae'r Bil drafft hwn yn rhoi dyletswyddau penodol ar y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a sefydlir gan y Bil mewn perthynas ag addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg gan gynnwys 'cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb galw rhesymol'. Buasem yn argymhell felly bod dyletswyddau penodol o'r fath yn cael eu rhoi ar yr Awdurdod Digidol mewn perthynas â sicrhau bod adnoddau digidol ar gael yn y Gymraeg; hyrwyddo gwasanaethau digidol Cymraeg; a galluogi cyrff sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru i gydymffurfio â'r disgwyliadau sydd arnynt o safbwynt safonau'r Gymraeg. Mae atodlen 1, 16 (c) y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil adrodd yn flynyddol am addysg Gymraeg a'r graddau y darparwyd addysg drydyddol yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Buasem yn eich annog i roi disgwyliad cyffelyb ar yr Awdurdod Digidol i adrodd ar ei weithgareddau o safbwynt y Gymraeg a'r graddau y mae gwasanaethau digidol ar gael yn y Gymraeg. Rydym yn manylu yng nghwestiwn 5 ar y math o ddyletswyddau y byddai modd eu rhoi ar yr awdurdod.

Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei gosod ar y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ychwanegol at y gofyn i'r Comisiwn gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Rydym yn trafod ein dymuniad i'r Awdurdod Digidol newydd hefyd gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn ein hateb i Gwestiynau 5 a 6 isod.

Cwestiwn 5: Byddem yn hoffi clywed eich barn ar yr effeithiau y byddai 'Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Mewn egwyddor fel y nodwn uchod credwn bod gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol rôl bwysig mewn hwyluso cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac yn benodol i hwyluso darparu gwasanaethau iechyd a gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn argymhell uchod bod swyddogaethau penodol yn cael eu gosod ar y corff newydd mewn perthynas ag adnoddau digidol Cymraeg gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

- darparu datrysiadau cenedlaethol digidol i alluogi cyrff sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru i gydymffurfio â'r disgwyliadau sydd arnynt o safbwynt safonau'r Gymraeg a dyletswyddau eraill o safbwynt y Gymraeg

⁷ <https://llyw.cymru/bil-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-cymru-drafft>

- sicrhau cysondeb cenedlaethol rhwng yr adnoddau digidol iechyd a gofal o safbwynt y Gymraeg gan sicrhau bod y systemau gwahanol yn gallu rhyngweithredu â'i gilydd, e.e. drwy rannu data o un system i un arall
- sicrhau bod adnoddau digidol yn hwyluso cofnodi a rhannu gwybodaeth data am y Gymraeg
- datblygu safonau digidol a therminoleg ar gyfer datblygu a defnyddio adnoddau digidol Cymraeg yn y sector iechyd a gofal
- hyrwyddo gwasanaethau digidol Cymraeg yn y sector iechyd a gofal
- adrodd yn flynyddol i fwrdd yr Awdurdod ar gyflawniad y gweithgareddau hyn

Ymhellach, credwn y dylid rhoi gofynion penodol ar Brif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal Cymru o safbwynt sicrhau digonolrwydd adnoddau digidol iechyd a gofal yn y Gymraeg a bod rhaid prif-ffrydio'r Gymraeg yn llawn i'r Fframwaith Llywodraethiant Digidol Newydd yn ogystal.

Cwestiwn 6: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig 'Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol' gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ar hyn o bryd mae NWIS yn sefydliad anstatudol sy'n cael ei gynnal o dan fframwaith statudol Ymddiriedolaeth GIG Felindre. O'r herwydd mae'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn unol â hysbysiad cydymffurfio Ymddiriedolaeth GIG Felindre.⁸ Eglurir sawl gwaith yn y ddogfen ymgynghori mai'r prif reswm dros sefydlu'r Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol yw er mwyn cryfhau trefniadau atebolrwydd a llywodraethu. Mae'n syndod felly nad yw'r ddogfen ymgynghori yn nodi bwriad i roi unrhyw atebolrwydd o safbwynt y Gymraeg ar y corff newydd drwy sicrhau y bydd yn gweithredu yn unol â safonau'r Gymraeg. Gan fod NWIS ar ei ffurf bresennol eisoes yn cydymffurfio â'r safonau mae'n destun pryder inni nad yw'r ddogfen ymgynghori yn nodi y bydd yr awdurdod newydd yn cydymffurfio â'r safonau. Credwn y buasai'n gam arwyddocaol a phryderus iawn petai Llywodraeth Cymru yn creu corff newydd sydd ddim yn ddarostyngedig i safonau yn ôl troed corff sydd eisoes yn cydymffurfio â'r safonau. Nodir yn y ddogfen ymgynghori yn ogystal yr ystyrir y bydd yr Awdurdod newydd yn 'gydgorff' i Fyrddau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd eraill yn GIG Cymru'. Fel yr ydym wedi'i nodi eisoes mae gofyn ar i Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau Iechyd a Llywodraeth Cymru (yn ogystal ag awdurdodau lleol) gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Er mwyn i'r corff hwn fod yn 'gydgorff' gwirioneddol credwn y dylai o'r funud y daw i rym gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Rydym yn gofyn felly ichi sicrhau y bydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn syth pan ddaw i fodolaeth statudol. Rydym eisoes wedi trafod hyn ar lafar gyda swyddogion y Llywodraeth ac rydym yn mawr obeithio y byddwn yn cael sicrhad buan y bydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn syth.

8

Rydym wrth gwrs wedi trafod gofyniad o'r fath â chi eisoes mewn perthynas ag awdurdod iechyd arbennig arall a grëwyd gan Lywodraeth Cymru sef Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Nid yw'r corff hwn ddwy flynedd ers ei greu yn gorfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg er ei fod wedi mynegi dymuniad i wneud hynny⁹. Yn hytrach, mae wedi bwrw ati i ddatblygu cynllun iaith Gymraeg¹⁰ sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Er hynny, yn y cyfamser bydd yn ofynnol i gorff newydd Llais y Dinesydd a ddaw i fodolaeth yn sgil Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) gydymffurfio â'r safonau. Yn ysbryd eich dymuniad i gryfhau trefniadau atebolrwydd a llywodraethu cryfach yn y maes digidol credwn ei bod yn ofyniad rhesymol iawn eich bod yn sicrhau cysondeb rhwng yr Awdurdod Digidol a'i gyd-gyrff iechyd drwy sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg o'r dechrau'n deg.

Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma: Nid oes gennym ragor o sylwadau.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

⁹ Yn ei gynllun iaith drafft mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn nodi: 'Hyd yma, nid yw Gweinidogion Cymru wedi rhagnodi rheoliadau mewn perthynas ag ymddygiad AaGIC, a fyddai'n ein galluogi i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Byddwn yn parhau i drafod yn adeiladol gyda Gweinidogion Cymru gyda'r bwriad i ni allu cael ein cynnwys yn y gyfundrefn safonau yn y dyfodol agos'

¹⁰ <https://aagic.gig.cymru/files/dogfennau-allweddol/welsh-language-scheme-public-consultation-document-cym/>